

**MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH  
RHWNG**

**AROLYGIAETH GOFAL CYMRU  
A  
OMBWDSMON GWASANAETH CYHOEDDUS  
CYMRU**

---

Rhif y Fersiwn: 2.0
Dyddiad y cytunwyd arno: 20 Medi 2022

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Swyddogaethau a chyfrifoldebau .....	4
2.1	Swyddogaeth AGC.....	4
2.2	Swyddogaethau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	5
3.	Egwyddorion cydweithredu a grymoedd statudol .....	5
4.	Meysydd Cydweithredu .....	6
5.	Y berthynas yn ymarferol .....	7
6.	Atgyfeirio mewn achosion unigol.....	7
7.	Cydraddoldeb a Hawliau dynol.....	7
8.	Rhannu gwybodaeth .....	8
9.	Cysoni anghydfod .....	8
10.	Hyd ac adolygiad.....	8
11.	Llofnodion .....	9

## ii. Hanes Adolygu a Chymeradwyo

Fersiwn	Dyddiad y cytunwyd arno
0.1	I'w gadarnhau
0.2	Diwygiadau AGC ac OGCC
0.3	Cytuno ar, ac ychwanegu, ddyddiad llofnodi
2.0	20 Medi 2022

Dyddiad	Disgrifiad o adolygu'r ddogfen	Diweddarwyd y ddogfen gan
11 Tachwedd 2013	Drafft cychwynnol	Nigel Moss
1 Hydref 2014	Diwygiadau gan CSSIW ac yn OGCC	Natalie Cooper
15 Rhagfyr 2014	Llofnodwyd gan y Prif Arolygydd a'r Ombwdsmon	Marilyn Morgan
Mawrth 2022	Diwygiadau gan CIW	Lisa Traylor
Mai 2022	Diwygiadau gan OGCC	Sam Ward
Medi 2022	Llofnodwyd gan y Prif Arolygydd a'r Ombwdsmon	

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw gosod fframwaith i gefnogi'r berthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).
- 1.2 Nid yw'r Memorandwm hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y cyrff unigol nac yn ymarfer y swyddogaethau hynny; nac yn diwygio unrhyw bolisïau a chytundebau eraill mewn perthynas â'u gweithgareddau. Nid yw'n awgrymu unrhyw drosglwyddo cyfrifoldeb o un llall, nac yn golygu unrhyw rannu cyfrifoldebau statudol ac eithrio ble mae hyn yn cael ei ganiatáu drwy statud.
- 1.3 Mae gan OGCC rymoedd statudol yn gysylltiedig ag AGC yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn awdurdod rhestredig o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Bydd OGCC yn ymateb i unrhyw gŵyn ynghylch AGC yn unol â'r Ddeddf a'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun. O ganlyniad, nid yw cwynion ynghylch, neu'n cynnwys, gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan AGC yn cael eu heffeithio gan y Memorandwm hwn a bydd cwynion yn cael eu harchwilio yn yr un modd â chwynion i'r OGCC ynghylch cyrff eraill.
- 1.4 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn creu hawliau neu rwymedigaethau gyfreithiol rwymol, fodd bynnag, mae AGC ac OGCC yn cytuno i ymlynu i'w egwyddorion a chymryd sylw priodol o weithgareddau ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## **2. Swyddogaethau a chyfrifoldebau**

### **2.1 Swyddogaeth AGC**

- 2.1.1 AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru. Swyddogaeth AGC yw cofrestru, arolygu a gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.
- 2.1.2 Mae AGC yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar gyfer:
  - Gwasanaethau cartrefi gofal
  - Gwasanaethau llety diogel
  - Gwasanaethau canolfan breswyl i deuluoedd
  - Gwasanaethau Mabwysiadu
  - Gwasanaethau Maethu
  - Gwasanaethau lleoli oedolion
  - Gwasanaethau eiriolaeth
  - Gwasanaethau Cymorth Cartref

2.1.3 O dan ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae AGC hefyd yn rheoleiddio ac yn arolygu:

- Gwarchodwyr Plant
- Gofal dydd (gan gynnwys chwarae) i blant dan 12 oed

2.1.4 Ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach gyda llety ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed.

2.1.5 Mae AGC hefyd yn arolygu ac yn adolygu gweithrediad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

## **2.2 Swyddogaethau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

2.2.1 Swyddogaeth statudol yr OGCC yw edrych i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Mae OGCC hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth. Swyddogaeth OGCC yw:

- Ystyried cwynion ynghylch cyrff cyhoeddus a gwasanaethau gofal cymdeithasol (preswyl neu ddomestig) a gofal lliniarol sydd wedi cael eu trefnu neu'u hariannu'n breifat.
- Ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad.
- Unioni'r sefyllfa a rhoi pobl yn ôl yn y sefyllfa y bydden nhw wedi bod ynnddi pe na fydden nhw wedi dioddef anghyfiawnder, a gweithio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl lle mae anghyfiawnder wedi digwydd.
- Gweithio gyda chyrrff fel bod gwersi yn cael eu dysgu o'r ymchwiliadau.
- Sicrhau gwelliant parhaus yn safonau'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy helpu cyrrff ei gael yn iawn y tro cyntaf - gweithio i leihau cwynion drwy helpu darparwyr gwasanaethau i wella eu penderfyniadau cychwynnol.

## **3. Egwyddorion cydweithredu a grymoedd statudol**

3.1 Nod trosfwaol y ddau gorff yw cyfrannu tuag at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog yng Nghymru sy'n parchu ac yn hyrwyddo hawliau dynol dinasyddion ac sy'n sensitif i anghenion aelodau mwyaf difreintiedig a bregus cymdeithas.

3.2 Mae gan y ddau gorff ddiddordeb ym mherfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru o ran eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a gall y ddau

gorff fod yn gysylltiedig ag ystyried y gofal sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr gwasanaethau annibynnol.

- 3.3 AGC yn benodol sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac am sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddiedig yn cydymffurfio â'r statudau, y rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. Gall ddefnyddio ei rymoedd gorfodi, sifil a throseddol fel ei gilydd, er mwyn sicrhau hyn mewn gwasanaethau cofrestredig
- 3.4 Lle mae'r OGCC yn dod i'r casgliad bod unigolyn wedi cael cam ac wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gŵyn y mae OGCC wedi'i hystyried, yna fel arfer, mae OGCC yn gwneud argymhellion i ymdrin ag unrhyw bryderon a nodwyd.
- 3.5 Mae AGC a OGCC yn cytuno i gydweithio er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru.

#### **4. Meysydd Cydweithredu**

- 4.1 Yn yr ysbryd o gydweithredu, mae AGC ac OGCC yn cytuno i:
  - Rhannu gwybodaeth am dueddiadau, data, polisi a mentrau sy'n ymwneud â'r nod cyffredin o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel;
  - Rhannu copiâu electronig o adroddiadau yn dilyn adolygiadau ac arolygiadau neu ymchwiliadau a allai fod yn berthnasol i'r ddau sefydliad. Bydd anhysbysrwydd yn cael ei ddiogelu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol;
  - Ymgynghori mewn perthynas â chanllawiau neu adroddiadau a gynhrychir gan un cyd-lofnodwr sy'n cyfeirio at gyfrifoldebau neu swyddogaethau'r cyd-lofnodwr arall;
  - Cydweithredu i ledaenu gwybodaeth am arfer da lle mae'r arfer da hwnnw'n berthnasol i brif nodau'r cyd-lofnodwr arall;
  - Sicrhau bod ymholwyr ac achwynwyr posibl neu wirioneddol yn cael gwybodaeth ddefnyddiol a chywir am swyddogaethau'r cyd-lofnodwr arall, lle gallai'r wybodaeth honno fod o gymorth iddynt.
  - Cydweithredu a rhannu gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas â chwynion a phryderon mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sydd wedi cael eu trefnu neu'u hariannu'n breifat.
- 4.2 Bydd pob sefydliad yn dosbarthu datganiadau i'r wasg i'r llall (dan embargo) er mwyn pennu sut y gellir ymdrin ag unrhyw ddiddordeb yn y cyfryngau sy'n ymwneud â mater o bryder i'r ddwy ochr.

- 4.3 Bydd pob sefydliad yn rhannu unrhyw ddatganiad i'r cyfryngau sy'n cyfeirio at y llall i sicrhau bod y datganiad yn gywir.
- 4.4 Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod aelodau perthnasol o staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r egwyddorion ar gyfer cydweithio.
- 4.5 Cyfrifoldeb y Prif Arolygydd a'r Ombwdsmon fydd sicrhau bod pob sefydliad yn deall swyddogaeth y llall a'r fframwaith statudol y mae'n ofynnol iddo weithredu oddi mewn iddo.

## **5. Y berthynas yn ymarferol**

- 5.1 Bydd y berthynas waith rhwng AGC ac OGCC yn cael ei nodweddu gan gysylltiad rheolaidd, parhaus a chyfnewid gwybodaeth yn agored mewn modd priodol rhyngddyn nhw o fewn paramedrau fframweithiau cyfreithiol y naill a'r llall.
- 5.2 Bydd cyswllt parhaus, yn ôl yr angen, yn digwydd rhwng cysylltiadau enwebedig OGCC ac AGC.
- 5.3 Bydd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal bob 6 mis rhwng staff OGCC a staff AGC. Lle bo'n berthnasol, bydd y rhain yn cynnwys yr Ombwdsmon a'r Prif Arolygydd. Gall y Prif Arolygydd neu'r Ombwdsmon ddirprwyo'r dasg hon i'w Ddirprwy Prif Arolygydd a/neu Bennaeth Gwasanaethau Cymorth neu Gyfarwyddwr Ymchwiliadau. Bydd y cyfarfodydd yn rhannu gwybodaeth am dueddiadau, data pryderon, a diweddariadau ar fentrau a gwaith sy'n cyfrannu at y nod cyffredin o sicrhau gwasanaethau gofal o ansawdd uchel i ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru.

## **6. Atgyfeirio mewn achosion unigol**

- 7.1 Bydd AGC ac OGCC yn cyfeirio pryderon neu achosion o un sefydliad i'r llall lle mae'n briodol i wneud hynny. Er enghraifft, gall OGCC gyfeirio mater at AGC lle mae'n derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai bod bygythiad i iechyd a diogelwch un neu fwy o unigolion, ac ystyrir ei fod er lles y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth hon. Gall AGC gyfeirio at OGCC lle mae cwyn yn cael ei godi mewn perthynas â gwasanaeth a ddarparwyd gan gorff sy'n syrthio o fewn ei awdurdodaeth, a bod y gofynion a amlinellir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn cael eu cwrdd.

## **7. Cydraddoldeb a Hawliau dynol**

- 7.1 Mae'r angen i weithredu mewn modd sy'n gydnaws â Hawliau Confensiwn fel y disgrifir yn a. 1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn sylfaenol i waith AGC ac OGCC. Mae pob sefydliad yn ceisio hyrwyddo hawliau dynol y rhai hynny sydd o fewn ei gylch gwaith.

- 7.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd trin pobl yn annheg oherwydd nodweddion gwarchoddedig sydd ganddyn nhw ac mae'n helpu i gyflawni cyfleoedd cyfartal.
- 7.3 Mae pob sefydliad sy'n llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn credu bod y trefniadau a amlinellwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

## **8. Rhannu gwybodaeth**

- 8.1 Bydd AGC ac OGCC yn cydweithio drwy:
- Hysbysu a chysylltu â'r sefydliad arall cyn gynted â phosibl ynghylch gwybodaeth a gânt am achosion a allai fod o fewn eu hawdurdodaeth;
  - Rhannu gwybodaeth a data perthnasol sy'n ymwneud ag achosion cyffredin; a,
  - Cyfarfod yn flynyddol i drafod rhannu gwybodaeth ac i adolygu gweithdrefnau a threfniadau gweithio.
- 8.2 Yn eu gweithgareddau ar y cyd a'u cydweithrediad â'i gilydd, bydd AGC ac OGCC yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd un sefydliad yn derbyn cais am wybodaeth sy'n tarddu o'r llall, bydd y sefydliad sy'n derbyn y cais yn trafod y cais gyda'r llall cyn ymateb.
- 8.3 Bydd pob cyfnewid gwybodaeth rhwng AGC ac OGCC yn amserol, yn gyfreithlon ac yn gymesur. Bydd pob sefydliad yn dilyn eu protocolau rhannu data eu hunain wrth drosglwyddo data personol personol a sensitif.

## **9. Cysoni anghydfod**

- 9.1 Bydd y ddau sefydliad yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau yn gyfeillgar ar lefel weithredol. Os na ellir datrys yr anghydfod ar y lefel honno, bydd uwch reolwyr o'r ddau sefydliad yn ceisio datrys unrhyw fater.



## **10. Hyd ac adolygiad**

- 10.1 Mae AGC ac OGCC wedi nodi'r bobl sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad A. Byddant yn cysylltu yn ôl yr angen i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei gadw'n gyfredol, byddant yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn datrys unrhyw gwestiynau sy'n codi yn y berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.
- 10.2 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn wedi'i gyfyngu gan amser a bydd yn parhau i gael effaith oni bai bod angen newid yr egwyddorion a ddisgrifir neu os na fydd yr egwyddorion yn berthnasol mwyach. Bydd y



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad A, ond gellir ei adolygu hefyd ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

## 11. Llofnodion

<b>Gillian Baranski</b> Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru  Llofnod  Dyddiad 28 Medi 2022	<b>Michelle Morris</b> Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  Llofnod  Dyddiad 13 Hydref 2022
--	---

## Atodiad A - Manylion Cyswilt

---

### Arolygiaeth Gofal Cymru

Llywodraeth Cymru  
Rhydycar  
Merthyr Tydfil  
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 7900 126  
Ebost: [agc@llyw.cymru](mailto:agc@llyw.cymru)

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203  
Ebost: [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)

---

Mae'r prif gysylltiadau rhwng AGC ac OGCC fel a ganlyn:

---

### Prif gysylltiadau

**Margaret Rooney**

**Chris Vinestock**  
[Chris.Vinestock@ombwdsmon.cymru](mailto:Chris.Vinestock@ombwdsmon.cymru)

---

### Rheolwr y Memorandwm Cyd- ddealltwriaeth

Rheolwr Tim AGC Ansawdd a  
Gwybodaeth  
[Agcgwybodaeth@llyw.cymru](mailto:Agcgwybodaeth@llyw.cymru)

**Pennaeth Polisi, Cyfathrebu ac EDI**  
[Cyfathrebu@ombwdsmon.cymru](mailto:Cyfathrebu@ombwdsmon.cymru)

---

### Cais am Wybodaeth a nodiadau achos

I sylw: Rheolwr Tim AGC Ansawdd a  
Gwybodaeth  
[Agcgwybodaeth@llyw.cymru](mailto:Agcgwybodaeth@llyw.cymru)

**Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth**  
[Cais.Gwybodaeth@ombwdsmon.cymru](mailto:Cais.Gwybodaeth@ombwdsmon.cymru)

---